Consortium for Research in Deaf Education

# Adroddiad Cymru 2022

## Darpariaeth addysg i blant byddar yng Nghymru 2021/22

**Cyflwyniad**

Yn 2022, cynhaliwyd 12fed arolwg blynyddol Y Consortiwm Ymchwil i Addysg Fyddar (CRIDE) ar staffio addysgol a'r gwasanaeth a ddarparwyd i blant byddar[1]. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canlyniadau arolwg Cymru ac fe'i bwriedir ar gyfer penaethiaid gwasanaethau, llunwyr polisi mewn llywodraeth leol a chanolog ac unrhyw un sydd â diddordeb mewn addysg fyddar.

Bob yn ail, mae'r arolwg yn arolwg safonol ac arolwg sydd yn cynnwys cymysgedd o gwestiynau craidd a thematig. Roedd arolwg 2022 yn fersiwn gyda chwestiynau thematig, ac yn ymdrin â'r flwyddyn academaidd 2021/22.[2] Roedd y cwestiynau thematig ynghylch cymorth i deuluoedd i ddysgu iaith arwyddion, prydau ysgol am ddim a diwygiadau i fframwaith anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r dadansoddiad yn yr arolwg hwn wedi'i seilio ar ymatebion gan 15 gwasanaeth yng Nghymru, gan gynrychioli 22 o ardaloedd awdurdod lleol a gyda chyfradd ymateb o 100%.

**Cynnwys**


Crynodeb o ganfyddiadau allweddol ........ 3
RHAN 1: Plant Byddar yng Nghymru ........ 5
RHAN 2: Athrawon y Byddar a staff arbenigol eraill ........ 11
RHAN 3: Cymorth ôl-16 ........ 17
RHAN 4: Y cymorth a darperir ........ 18
RHAN 5: Cymorth ar ôl canfod byddardod ........ 20
RHAN 6: Cwestiynau thematig: Iaith arwyddion y teulu ........ 22
RHAN 7: Prydau ysgol am ddim ........ 23
RHAN 8: Diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ........ 23
RHAN 9: Cefndir a methodoleg ........ 25
Atodiad: Gwybodaeth yn ôl yr awdurdod lleol ........ 26


[1] At ddibenion adran hon yr arolwg, oni nodir yn wahanol, defnyddir y term 'plant byddar' i gynnwys plant a phobl ifanc hyd at 19 mlwydd ac 11 mis sydd â byddardod synwyrnerfol neu ddargludol parhaol. Gwelwch y troednodyn ar dudalen 5 am fwy o fanylion.

[2] Gellir dod o hyd i adroddiadau blaenorol ar wefan Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar yn www.ndcs.org.uk/CRIDE neu ar wefan BATOD yn https://www.batod.org.uk/information/cride-reports/.

**Dehongli’r canlyniadau**

Gofynnwyd i wasanaethau ddarparu ffigurau am y sefyllfa o 31 Ionawr 2022 ymlaen.

Cydnabuwyd yn yr arolwg nad yw'r blychau a'r opsiynau a ddarparwyd bob tro yn ddigonol i ddisgrifio'r gwasanaethau a'r plant. Roedd gan wasanaethau'r cyfle i nodi sylwadau neu i egluro lle bu angen trwy'r arolwg. Nodir gan yr adroddiad hwn materion penodol a ddaeth i'r amlwg mewn rhai ardaloedd.

Fel y gwelwn yn ddiweddarach, mae’n amlwg bod rhai gwasanaethau dal i brofi anawsterau wrth gael data am blant byddar yn eu hardaloedd ac mae yna anghysondebau o hyd yn y modd y mae gwahanol gwestiynau yn cael eu hymateb drwy gydol yr arolwg. Weithiau gall y gyfradd ymateb i gwestiynau unigol amrywio a gall anomaleddau ymddangos weithiau. Rydym yn gwneud pob ymdrech i ymchwilio i unrhyw anghysondebau sy’n ymddangos i fod yn arbennig o ryfedd. Ond, nid yw gwasanaethau bob tro yn ymateb i ymholiadau o’r fath. **Felly, dylid defnyddio’r canlyniadau â gofal o hyd.** Dylid defnyddio gofal hefyd oherwydd y gwahaniaethau mewn cyfraddau ymateb i gwestiynau unigol a chamgymeriadau posib yn narpariaeth data rhwng arolygon.

Noder bod pob canran yn yr arolwg hwn wedi'i thalgrynnu i fyny neu i lawr i'r rhif cyfan agosaf. Nodwch hefyd lle mae yna garfan o lai na phump o blant yn unrhyw un o’r tablau yn yr adroddiad hwn, rydym wedi nodi ‘<5’ yn lle’r ffigur ac wedi defnyddio sero wrth gyfrifo’r cyfansymiau yn y tabl hwnnw. Defnyddir serennig yn erbyn y cyfanswm i ddangos hwn.

## Crynodeb o ganfyddiadau allweddol

*Nifer y plant byddar*

- Mae yna o leiaf 2,329 o blant byddar yng Nghymru.
- Mae 81% o blant byddar oedran ysgol yn mynychu ysgolion prif ffrwd. Mae 9% yn mynychu ysgolion prif ffrwd gyda darpariaeth adnoddau, llai nag 1% yn mynychu ysgolion arbennig i blant byddar (y tu allan i Gymru) a 10% yn mynychu ysgolion arbennig nid ar gyfer plant byddar yn benodol. Mae 1% yn cael eu haddysgu gartref.
- Mae 40% o wasanaethau yn cofnodi eu bod yn darparu cymorth i bobl ifanc byddar dros 19 oed, mae'r gwasanaethau hyn yn cefnogi 20 o bobl ifanc byddar dros 19 oed.

*Athrawon Plant Byddar a staff arbenigol eraill*

- Mae yna o leiaf 65.2 swydd Athrawon Plant Byddar CALl, ac o'r rhain roedd 4% ohonynt yn wag. O'r 62.8 aelod staff CALl sy'n gweithio fel Athrawon Plant Byddar, roedd 92% ohonynt yn meddu ar y cymhwyster gorfodol ac 8% ohonynt o dan hyfforddiant.
- Mae nifer yr Athrawon Plant Byddar mewn cyflogaeth sy'n gweithio mewn rôl beripatetig, mewn darpariaeth adnoddau a/neu mewn coleg neu ysgol arbennig nid ar gyfer plant byddar yn benodol wedi codi 6% ers 2021 a gostwng 20% ers inni ddechrau'r arolwg yn 2011.
- Mae gan Athrawon Plant Byddar Peripatetig lwyth achos damcaniaethol o 59 o blant byddar, gostyngiad o 60 yn 2021.
- Mae yna o leiaf 47 swydd i staff cymorth arbenigol eraill, ac o'r swyddi hyn mae 3% ohonynt yn wag.

*Darpariaeth adnoddau*

- Cofnodwyd bod 19 darpariaeth adnoddau. Mae hyn wedi gostwng o 20 yn 2021 a 24 yn 2019. Gan edrych ar ymlediad darpariaethau adnoddau ledled Cymru, ar gyfartaledd, mae yna un ddarpariaeth adnoddau i bob 122 plentyn byddar. Mae hyn wedi codi o un i bob 116 plentyn byddar yn 2021.

*Atgyfeiriadau*

- Daeth 15% o atgyfeiriadau i wasanaethau o'r rhaglen sgrinio clyw babanod yn 2021. O'r rhain, cafodd 69% eu cysylltu gan Athro Plant Byddar o fewn 2 niwrnod gwaith.
- Daeth 25% o atgyfeiriadau o'r tu allan o'r rhaglen sgrinio clyw babanod a chyn i blentyn ddechrau addysg statudol. O'r rhain, cafodd 74% eu cysylltu gan Athro Plant Byddar o fewn 5 diwrnod gwaith.
- Daeth 61% o atgyfeiriadau o'r tu allan o'r rhaglen sgrinio clyw babanod ac ar ôl i blentyn ddechrau addysg statudol. O'r rhain, cafodd 42% eu cysylltu gan Athro Plant Byddar o fewn 5 diwrnod gwaith.
- Ni waeth sut y gwnaethpwyd yr atgyfeiriad, cynigwyd ymweliad (naill ai wyneb yn wyneb neu'n rhithiol) i 56% o deuluoedd o fewn 10 diwrnod gwaith o'r atgyfeiriad.

*Iaith arwyddion y teulu*

- Mae 33% o wasanaethau yn darparu cyfleoedd anffurfiol yn uniongyrchol i deuluoedd i ddysgu ac ymarfer iaith arwyddion.
- Mae 13% o wasanaethau yn darparu cyrsiau neu hyfforddiant mewn iaith arwyddion yn uniongyrchol i deuluoedd.
- Mae 13% o wasanaethau yn ariannu neu'n comisiynu cyrsiau i deuluoedd i'w galluogi i ddysgu iaith arwyddion ar gwrs wedi'i gyflwyno gan ddarparwr allanol.

- Nid yw 80% o wasanaethau yn darparu, ariannu neu'n comisiynu unrhyw gyrsiau mewn iaith arwyddion i deuluoedd.

*Prydau ysgol am ddim*

- Nid oedd un gwasanaeth yn cofnodi a yw plentyn oedran ysgol yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Ymddengys nad oes unrhyw wasanaeth yn cael trafodaethau ynghylch sut mae cyllid ychwanegol sy'n ymwneud â lefelau prydau ysgol am ddim (h.y. y Grant Amddifadedd Disgyblion) mewn ysgol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer plant byddar.

*Diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)*

- Mae 73% o wasanaethau wedi rhoi Cynlluniau Datblygu Unigol i blant byddar cyn-ysgol ers i ddiwygiadau ADY gael eu cyflwyno, ym Medi 2021.
- Cofnodwyd bod cyfanswm o 26 plant byddar cyn-ysgol wedi derbyn Cynllun Datblygu Unigol, fel y cofnodwyd gan 11 gwasanaeth.

# RHAN 1: Plant Byddar yng Nghymru

**Faint o blant byddar sydd?**

Gofynnwyd i wasanaethau roi manylion am blant byddar sy'n byw yn yr ardal ddaearyddol lle mae eu gwasanaeth yn gweithredu[3].

Wrth roi ffigyrau am nifer y plant byddar a oedd yn byw yn yr ardal, gofynnwyd i wasanaethau yn gyntaf i roi ffigwr cyffredinol ac wedyn am ddadansoddiad yn ôl lleoliad addysgol. Nid oedd rhai gwasanaethau bob amser yn darparu'r data hwn yn gyson; weithiau rhoddodd rhai gwasanaethau ffigyrau wedi'u dadansoddi lle'r oedd y swm yn cynhyrchu cyfanswm gwahanol i'r un a rhoddwyd rhywle arall yn yr arolwg.

Felly nid yw'n syml i ddod o hyd i ateb clir i'r cwestiwn am faint o blant byddar sydd. Am yr adroddiad hwn, rydym wedi penderfynu defnyddio'r ffigur uchaf a rhoddwyd, o naill ai'r cyfanswm terfynol neu gyfanswm y ffigyrau wedi'u dadansoddi. Gwnawn hyn oherwydd rydym am sicrhau ein bod ni wedi cofnodi cymaint o blant byddar â phosib. Lle rydym wedi gwneud hyn, cyfeiriwn ato fel y "cyfanswm wedi'i addasu.

Ymatebodd pob un o'r 15 gwasanaeth i'r cwestiwn hwn. Yn seiliedig ar ymatebion hyn, **cyfanswm y plant byddar yng Nghymru wedi'i addasu yw 2,329**. Mae'r ffigur hwn wedi codi ychydig o 2,324 yn 2021, pan ymatebodd 15 gwasanaeth. Ond mae dal i fod yn is na'r ffigur cyn-bandemig o 2,486 yn 2019.

Darperir ffigyrau heb eu haddasu yn y tabl dilynol.

*Tabl 1: Ffigyrau a gynhyrchwyd wrth gyfrifo nifer y plant byddar*

| | **Cyfanswm a gynhyrchwyd** |
|---|---|
| Cyfanswm wedi'i addasu | 2,329 |
| Cyfanswm a roddwyd pan ofynnwyd am nifer y plant yn gyffredinol | 2,327 |
| Cyfanswm a roddwyd pan ofynnwyd am nifer y plant, wedi'i ddadansoddi yn ôl lleoliad addysgol | 2,329[4] |

Gan ddefnyddio'r cyfansymiau wedi'u haddasu, y nifer lleiaf o blant a gofnodwyd gan wasanaeth oedd 38 o blant byddar yn byw o fewn ei ffiniau. Y nifer fwyaf a gofnodwyd oedd 452 o blant byddar (roedd hwn mewn gwasanaeth sy'n gweithio dros bum ardal awdurdod lleol). Y nifer cyfartalog o blant byddar sy'n byw mewn pob gwasanaeth oedd 155.

Mae'r tabl canlynol yn cymharu cyfanswm y plant byddar sy'n byw yng Nghymru gyda ffigyrau o flynyddoedd blaenorol. Fel y nodwyd yn y cyflwyniad, dylid defnyddio gofal wrth wneud cymariaethau gydag adroddiadau cynharach oherwydd ansawdd yr ymatebion a chyfraddau ymateb rhwng yr arolygon.

[3] Gofynnwyd i wasanaethau i gynnwys pob plentyn sydd â byddardod parhaol sy'n byw yn yr ardal ddaearyddol lle mae eu gwasanaeth yn gweithredu, gan gynnwys pob plentyn hyd at 19 mlwydd ac 11 mis sydd â byddardod synwyrnerfol neu ddargludol parhaol unochrol neu ddwyochrol, ar bob lefel o fân i lwyr, gan ddefnyddio disgryfyddion BSA/BATOD p'un ai ydynt yn derbyn cymorth gan y gwasanaeth neu beidio. Gofynnwyd i wasanaethau hefyd i gynnwys plant sy'n mynychu darpariaeth addysgol y tu allan i'ch ardal ond sydd fel arfer yn byw o fewn eu hardal. O dan ddiffiniad byddardod parhaol a ddefnyddiwyd yn yr arolwg, dylid cynnwys plant sydd â syndrom sydd yn cynnwys byddardod dargludol parhaol, microtia/atresia, camffurfiad y glust ganol, neu'r rheini sydd wedi cael llawdriniaeth ar y glust ganol fel mastoidectomi. Mae ein diffiniad hefyd yn cynnwys y plant hynny sydd â chlust ludiog na ddisgwylir iddynt 'dyfu allan' o'r anhwylder cyn iddynt gyrraedd 10 oed, fel y rheini a anwyd gyda thafod hollt, Syndrom Down, ffibrosis systig, neu dyscinesia blewynnol cychwynnol. Fel arall, gofynnwyd i wasanaethau i beidio â chynnwys plant â byddardod dros dro, gan gynnwys y plant hynny sydd â chlust ludiog sydd wedi derbyn cymhorthion clyw yn lle llawdriniaeth i osod gromed ond disgwylir iddynt 'dyfu allan' o'r anhwylder cyn iddynt gyrraedd 10 oed.

[4] Swm y cyfansymiau a roddwyd gan wasanaethau oedd 2,084, swm y ffigyrau a roddwyd gan wasanaethau wedi'u dadansoddi oedd 2,329.

*Tabl 2: Nifer y plant byddar a gofnodwyd, dros flynyddoedd olynol*

| | **Nifer y plant byddar a gofnodwyd** |
|---|---|
| CRIDE 2022 (cyfanswm wedi'i addasu) | 2,329 |
| CRIDE 2021 (cyfanswm wedi'i addasu) | 2,324 |
| CRIDE 2020* | 1,384 |
| CRIDE 2019 (cyfanswm wedi'i addasu) | 2,486 |
| CRIDE 2018 | 2,625 |
| CRIDE 2017 (cyfanswm wedi'i addasu) | 2,642 |
| CRIDE 2016 | 2,374 |
| CRIDE 2015 (cyfanswm wedi'i addasu) | 3,288 |
| CRIDE 2014 | 2,880 |
| CRIDE 2013 (cyfanswm wedi'i addasu) | 2,904 |
| CRIDE 2012 (cyfanswm wedi'i addasu) | 2,743 |
| CRIDE 2011 (cyfanswm wedi'i addasu) | 2,755 |

* *Yn 2020, roedd yna 11 ymateb i'r cwestiwn hwn.*

**Problemau neu fylchau yn y data**

Dywedodd deg gwasanaeth (67%) fod yna fylchau neu broblemau hysbys yn y data a ddarparasant am nifer y plant a phobl ifanc byddar. Roedd y rhain yn cynnwys:

- gwasanaethau yn meddu ar ffigurau am blant sy'n derbyn cymorth gan y gwasanaeth yn unig (53% o wasanaethau)
- gwasanaethau ddim yn meddu ar ffigurau am blant sydd wedi gadael yr ysgol (27%)
- gwasanaethau yn meddu ar ffigurau am blant sy'n gwisgo cymhorthion clyw yn unig (13%)
- arall (13%). Roedd rhesymau eraill yn cynnwys:
    - rhai bylchau yn y data am golled clyw parhaol/dros dro.
    - ffigyrau yn cynrychioli plant sy'n mynychu apwyntiadau awdioleg rheolaidd ac am bwy y mae'r gwasanaeth wedi derbyn adroddiadau awdioleg. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn gwybodaeth gan adrannau'r glust, y trwyn a'r gwddf.

Mae ehangder y problemau a bylchau hyn yn ein hatgoffa bod angen defnyddio'r ffigyrau a grëwyd gan arolwg CRIDE â gofal. Mae'r data yn yr adroddiad hwn ond cystal â'r data a ddarperir inni gan awdurdodau lleol, ac mae'r adran uchod yn codi cwestiynau am sut gallwn wella'r data a gesglir am blant byddar. Ar yr un pryd, credwn fod y data a gynhyrchir drwy adroddiadau CRIDE yn parhau i fod un o'r ffynonellau data gorau sydd ar gael.

*Tabl 3: Nifer y plant sy'n byw yn yr ardal, yn ôl lleoliad addysgol*

| **Y fath o ddarpariaeth addysgol** | | **Nifer y plant byddar** | **Canran o'r cyfanswm (lle bo'n hysbys)** |
|---|---|---|---|
| **O fewn yr awdurdod lleol** | Wedi'u cynorthwyo yn y cartref yn unig – plant cyn-ysgol | 77 | 3% |
| | Lleoliad blynyddoedd cynnar – plant cyn-ysgol | 82 | 4% |
| | Wedi'u cynorthwyo yn y cartref – oedran ysgol ac yn derbyn addysg yn y cartref | 11 | 0% |
| | Ysgolion prif ffrwd a ariennir gan y wladwriaeth (gan gynnwys academïau ac ysgolion rhydd) | 1,641 | 72% |
| | Ysgolion prif ffrwd annibynnol (nas ariennir gan y wladwriaeth) (e.e. Eton) | 13 | 1% |
| | Darpariaeth adnoddau mewn ysgolion prif ffrwd[5] | 172 | 8% |
| | Ysgolion arbennig eraill, nid ar gyfer plant byddar yn benodol (naill ai a ariennir gan y wladwriaeth neu ysgolion nas cynhelir) | 200 | 9% |
| | Unrhyw ddarpariaeth ôl-16 arall (**ac eithrio** colegau chweched dosbarth mewn ysgol) | 37 | 2% |
| **Y tu allan i'r awdurdod lleol** | Lleoliad blynyddoedd cynnar - plant cyn-ysgol | <5 | 0% |
| | Ysgolion prif ffrwd a ariennir gan y wladwriaeth (gan gynnwys academïau ac ysgolion rhydd) | 16 | 1% |
| | Ysgolion prif ffrwd annibynnol (nas ariennir gan y wladwriaeth) | 6 | 0% |
| | Darpariaeth adnoddau mewn ysgolion prif ffrwd | 7 | 0% |
| | Ysgolion arbennig i ddisgyblion byddar (naill ai a ariennir gan y wladwriaeth neu ysgolion nas cynhelir) | 9 | 0% |
| | Ysgolion arbennig eraill, nid ar gyfer plant byddar yn benodol (naill ai a ariennir gan y wladwriaeth neu ysgolion nas cynhelir) | 5 | 0% |
| | Unrhyw ddarpariaeth ôl-16 arall (**ac eithrio** colegau chweched dosbarth mewn ysgol) | <5 | 0% |
| **Arall** | NEET (Nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant) (ôl-16 yn unig) | 0 | 0% |
| | Arall (e.e. Unedau cyfeirio disgyblion) | <5 | 0% |
| **Cyfanswm y ffigyrau a roddwyd (ac eithrio 'nid yw'n hysbys')** | | 2,276* | 100% |
| **Nid yw'n hysbys** | | 49 | |
| **Cyfanswm y ffigyrau a roddwyd (gan gynnwys 'nid yw'n hysbys')** | | 2,325* | |

Mae'r tabl canlynol yn cyflwyno'r un wybodaeth fel yr uchod ond heb rannu'r ffigurau yn ôl a ydynt o fewn neu y tu allan i'r awdurdod lleol, a hefyd yn dangos canrannau cryno ar gyfer plant byddar oedran ysgol yn unig.

[5] Yn arolwg CRIDE, defnyddiwn y term 'darpariaeth adnoddau' i gynnwys pob ysgol sydd ag unrhyw uned, canolfan neu ddarpariaeth adnoddau arbenigol ar gyfer plant byddar yn benodol, ni waeth a yw'r staff yn y ddarpariaeth adnoddau yn cael eu cyflogi gan yr awdurdod lleol neu gan yr ysgol.

*Tabl 4: Dadansoddiad o'r mathau o ddarpariaeth addysgol*

| **Math o ddarpariaeth addysgol (ni waeth a ydynt o fewn neu'r tu allan i'r awdurdod lleol)** | **Nifer y plant byddar** | **Canran o'r cyfanswm** | **Canran o gyfanswm y plant oedran ysgol (h.y. ac eithrio plant cyn-ysgol a phobl ifanc ôl-16)** |
|---|---|---|---|
| Wedi'u cynorthwyo yn y cartref yn unig - plant cyn-ysgol | 77 | 3% | |
| Lleoliad blynyddoedd cynnar - plant cyn-ysgol | 82* | 4% | |
| Wedi'u cynorthwyo yn y cartref – oedran ysgol ac yn derbyn addysg yn y cartref | 11 | 0% | 1% |
| Darpariaeth prif ffrwd (gan gynnwys ysgolion a ariennir gan y wladwriaeth ac ysgolion annibynnol) | 1,676 | 72% | 81% |
| Darpariaeth prif ffrwd: darpariaeth adnoddau | 179 | 8% | 9% |
| Ysgolion arbennig ar gyfer disgyblion byddar | 9 | 0% | 0% |
| Ysgolion arbennig eraill, nid ar gyfer plant byddar yn benodol | 205 | 9% | 10% |
| Unrhyw ddarpariaeth ôl-16 arall (ac eithrio colegau chweched dosbarth mewn ysgol) | 37* | 2% | |
| Arall (e.e. unedau cyfeirio disgyblion, NEET) | 49* | 2% | |
| Cyfanswm | 2,325* | 100% | |
| Cyfanswm (ac eithrio plant cyn-ysgol a darpariaeth ôl-16 arall ac 'arall') | 2,080* | | 100% |

O gymharu â ffigyrau o 2021:

- Mae canran y plant a phobl ifanc byddar oedran ysgol mewn addysg prif ffrwd (gan gynnwys ysgolion a ariennir gan y wladwriaeth ac ysgolion annibynnol) wedi codi chwe phwynt canran o 75% i 81% ers 2021.
- Mae canran y plant a phobl ifanc byddar oedran ysgol mewn darpariaethau adnoddau mewn ysgolion prif ffrwd wedi codi un pwynt canran o 8% i 9% ers 2021.
- Mae canran y plant a phobl ifanc byddar oedran ysgol mewn ysgolion arbennig eraill, nid ar gyfer plant byddar yn benodol wedi gostwng pum pwynt canran o 15% i 10% ers 2021.

*Tabl 5: Dadansoddiad o'r mathau o ddarpariaeth addysgol, yn ôl a ydynt o fewn neu y tu allan i'r awdurdod lleol cartref (lle bo'n hysbys)*

| **Math o ddarpariaeth addysgol** | **Nifer y plant byddar** | **Canran o'r cyfanswm** |
|---|---|---|
| O fewn yr awdurdod lleol cartref | 2,233 | 98% |
| Y tu allan i'r awdurdod lleol cartref | 43 | 2% |
| Cyfanswm (ac eithrio 'nid yw'n hysbys' ac 'arall') | 2,276 | |

**Nifer y plant ar lwythi achos gwasanaethau**

Defnyddir llwyth achos i olygu plant sy'n derbyn rhyw fath o gymorth **o leiaf unwaith y flwyddyn**. Mae enghreifftiau o gefnogaeth yn cynnwys addysgu uniongyrchol, ymweliadau i'r teulu neu'r ysgol, cyswllt â'r teulu, ysgol ac athrawon, gwirio teclynnau clyw, ayb. Gofynnwyd i wasanaethau gynnwys plant oedd yn derbyn cymorth gan y gwasanaethau ond nad ydynt yn byw o fewn yr un ardal ddaearyddol â'r gwasanaeth hynny. Roedd gwasanaethau hefyd yn gallu cynnwys plant â byddardod dros dro yn eu hatebion i'r cwestiwn hwn hefyd os oeddent ar lwyth achos y gwasanaeth.

Mae ymatebion gan 15 gwasanaeth yn arwyddo bod o leiaf 3,178 o blant byddar â byddardod parhaol neu dros dro ar lwythi achos gwasanaethau. Y nifer lleiaf o blant ar lwyth achos oedd 35 a'r uchaf oedd 1,059. Y cyfartaledd oedd 212 o blant.

Mae diffiniad 'llwyth achos' wedi newid o fewn arolwg CRIDE dros y blynyddoedd. Wrth ystyried newidiadau i arolwg 2021, ac mewn ymgynghoriad â gwasanaethau, rydym wedi penderfynu defnyddio 'o leiaf unwaith y flwyddyn' o hyn ymlaen (yn hytrach na mwy nag unwaith y flwyddyn). Mae'r tabl canlynol yn amlinellu ffigurau llwythi achos dros y blynyddoedd, ochr yn ochr â'r diffiniad a ddefnyddir yn yr arolwg hynny.

Noder hefyd bod yn 2016, newidiwyd cwestiwn yr arolwg i gynnwys plant â byddardod dros dro yn yr ymateb i'r cwestiwn hwn; yn flaenorol gofynnwyd i wasanaethau cynnwys plant â byddardod parhaol yn unig.

*Tabl 6: Nifer y plant byddar ar lwythi achos a gofnodwyd, dros flynyddoedd olynol*

| Blwyddyn | Nifer y plant ar y llwyth achos | Diffiniad llwyth achos | Nifer y gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 2022 | 3,178 | Rhyw fath o gymorth o leiaf unwaith y flwyddyn | 15 |
| 2021 | 3,430 | Rhyw fath o gymorth o leiaf unwaith y flwyddyn | 15 |
| 2020 | 1,639* | Rhyw fath o gymorth mwy nag unwaith y flwyddyn | 11 |
| 2019 | 3,265 | Rhyw fath o gymorth mwy nag unwaith y flwyddyn | 14 |
| 2018 | 4,258 | Rhyw fath o gymorth mwy nag unwaith y flwyddyn | 15 |
| 2017 | 3,968 | Rhyw fath o gymorth mwy nag unwaith y flwyddyn | 15 |
| 2016 | 3,722 | Rhyw fath o gymorth o leiaf unwaith y flwyddyn | 15 |
| 2015 | 3,022 | Rhyw fath o gymorth mwy nag unwaith y flwyddyn | 15 |
| 2014 | 2,345 | Rhyw fath o gymorth mwy nag unwaith y flwyddyn | 15 |
| 2013 | 2,530 | Rhyw fath o gymorth mwy nag unwaith y flwyddyn | 17[6] |
| 2012 | 2,905 | Rhyw fath o gymorth mwy nag unwaith y flwyddyn | 21 |
| 2011 | 2,638 | Ni ddarparwyd diffiniad clir | 16 |

** Yn 2020, roedd yna 11 ymateb i'r cwestiwn hwn*

Gofynnwyd i wasanaethau rhannu nifer y plant ar eu llwythi achos a oedd â byddardod dargludol dros dro. Cofnododd 12 gwasanaeth bod yna 1,103 o blant.[7]

Os oes yna 2,329 o blant â byddardod parhaol yn byw yng Nghymru a 2,075 ar lwythi achos gwasanaethau gyda byddardod parhaol, mae yna o leiaf 254 o blant byddar (11% o'r cyfanswm wedi'i addasu) sydd ddim yn cael eu cefnogi gan y gwasanaeth o leiaf unwaith y flwyddyn. Nid yw'n dilyn yn awtomatig bod 11% o blant sydd â byddardod parhaol ddim yn derbyn unrhyw gymorth o gwbl; efallai bod nifer fawr ohonynt yn derbyn cefnogaeth llai nag unwaith y flwyddyn gan wasanaeth, neu o rywle arall, er enghraifft, darpariaethau adnoddau nad ydynt yn cael eu rheoli gan y gwasanaeth.

Gofynnwyd i wasanaethau a ydynt yn darparu cymorth i bobl ifanc byddar dros 19 oed. Dywedodd chwe gwasanaeth (40%) eu bod nhw yn gwneud hyn, a naw gwasanaeth (60%) eu bod nhw ddim yn gwneud hyn. Roedd 20 o bobl ifanc byddar dros 19 oed ar lwythi achos gwasanaethau lle roeddent yn darparu'r cymorth hwn. Lle nododd gwasanaethau sylwadau ar hyn, roedd sylwadau yn cynnwys:

[6] Mae'r newid yn nifer y gwasanaethau yn adlewyrchu'r ffaith bod rhai o'r gwasanaethau wedi cyfuno ar ôl 2013
[7] Hefyd nododd un gwasanaeth fod dim plant â byddardod dargludol dros dro ar ei lwyth achos, ac ni ddarparodd dau wasanaeth ateb i'r cwestiwn.

- roedd gwasanaeth wedi cysylltu â disgyblion a oedd yn mynychu prifysgolion lleol, ond nid oeddent yn eu cynnwys yn y llwyth achos eto nes iddynt benderfynu pa gymorth y byddent am ei dderbyn
- darpariaeth ysbeidiol yn cael ei rhoi i bobl ifanc mewn addysg bellach. Mae hyn yn cael ei adolygu fel rhan o ddiwygiadau ADY Llywodraeth Cymru
- mae pobl ifanc yn cael eu monitro ac mae'r gwasanaeth yn cysylltu â'u darparwr ar ôl ysgol, yn mynychu clinigau awdioleg yn ôl y gofyn, yn trosglwyddo cyfarpar i'r darparwr addysg bellach ôl 16 a hyfforddiant a chymorth wrth bontio a thu hwnt yn ôl y gofyn
- efallai bydd y gwasanaeth yn cefnogi rhai pobl ifanc byddar dros 19 oed fel eithriad, er enghraifft, os ydynt yn aros mewn ysgol arbennig ar ôl 19.

**Sut mae ffigyrau CRIDE 2022 yn cymharu â ffigyrau'r Cyfrifiad Ysgolion?**

Oherwydd gwahaniaethau yn y modd y mae data wedi cael ei gasglu a'r diffiniadau a ddefnyddiwyd, awgrymwn fod y ffigyrau dilynol yn cael eu defnyddio fel sail trafodaeth a dadansoddiad pellach, yn hytrach nag i ddod i gasgliadau cadarn.

Mae arolwg CRIDE 2022 yn adrodd bod 2,329 o blant byddar yng Nghymru. Ond, mae ffigurau'r Cyfrifiad Ysgol Llywodraeth Cymru[8] yn dangos bod 2,183 o ddisgyblion[9] gyda nam ar eu clyw, a 232 o ddisgyblion gyda nam aml-synwyr. Dylid nodi nad yw data Llywodraeth Cymru bellach yn dangos a yw'r nam ar y clyw yn brif angen neu'n angen eilaidd.

Rydym yn cydnabod bod ffigurau'r Cyfrifiad Ysgol yn bennaf yn cwmpasu disgyblion o 5 i 15 oed mewn ysgolion cynradd, canol ac uwchradd, ysgolion a gynhelir ac annibynnol, a bod y ffigurau CRIDE uchod am blant 0 i 19 oed. Yn yr adroddiad hwn, nid ydym yn gallu darparu cymhariaeth yn erbyn ffigurau CRIDE am blant oedran ysgol gan fod hyn yn bosib yn y flwyddyn pan mae CRIDE yn cynnal yr arolwg llawn yn unig.

[8] https://www.llyw.cymru/canlyniadaur-cyfrifiad-ysgolion-chwefror-2022

[9] Mae'n bwysig nodi bod Llywodraeth Cymru nawr yn talgrynnu rhifau i'r pump agosaf. Mae hefyd yn werth nodi bod Llywodraeth Cymru wedi datgan bod dychweliadau Cyfrifiad Ysgolion yn cael eu hawdurdodi gan brifathrawon ysgolion a'u dilysu gan Awdurdodau lleol. Fel rhan o Setliad Cyllid Llywodraeth Leol Cymru, dychwelir y data fel arfer i awdurdodau lleol i'w ddilysu'n derfynol. Fel arfer, ni fydd niferoedd cyffredinol y disgyblion ac athrawon yn newid yn sylweddol yn ystod y cyfnod hwn, gyda'r newid mwyaf tebygol yn nodweddion y disgyblion eu hunain e.e. hawl i brydau ysgol am ddim. Felly dylai defnyddwyr fod yn fwy gofalus wrth gymharu data ar nodweddion disgyblion a staff dros amser, yn enwedig gyda charfannau bach.

## RHAN 2: Athrawon Plant Byddar a staff arbenigol eraill

Yn arolwg 2022, defnyddiwyd y derminoleg ‘Athrawon Plant Byddar’. Er mwyn bod yn gyflawn, rydym yn defnyddio’r un iaith wrth adrodd ar ddarganfyddiadau’r arolwg hwn. Yn arolwg 2023 ac o hyn ymlaen, rydym yn bwriadu defnyddio’r derminoleg ‘Athrawon Plant a Phobl Ifanc Byddar (AYBon)’ yn lle.

Gofynnwyd faint o Athrawon Plant Byddar sy’n gweithio mewn gwahanol leoliadau, gan gynnwys y rheini mewn swydd beripatetig, yn gweithio mewn darpariaethau adnoddau[10] a/neu’n gweithio mewn coleg neu ysgol arbennig nid ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol. Gwelsom fod:

- yn gyffredinol, mae yna o leiaf 62.8 o athrawon CALl sy’n gweithio fel Athrawon Plant Byddar yng Nghymru.
- llenwir 92% o’r swyddi hyn gan Athro Plant Byddar hollol gymwysedig gyda’r swyddi sy’n weddill wedi’u llenwi gan athrawon sydd o dan hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol (8%).
- Ar adeg cwblhau’r arolwg, adroddwyd bod yna o leiaf 2.4 swydd wag CALl
- os ychwanegir y swyddi gwag i gyfanswm yr Athrawon Plant Byddar mewn cyflogaeth, byddai hyn yn arwyddo bod yna o leiaf 65.2 swydd Athro Plant Byddar CALl, gyda 4% ohonynt yn swyddi gwag.

Mae'r tabl isod yn darparu dadansoddiad yn ôl math y lleoliad.

*Tabl 7: Nifer yr Athrawon Plant Byddar mewn cyflogaeth yn gyffredinol*

| | **Yn gweithio'n bennaf fel Athro Plant Byddar peripatetig (cyfanswm a chanran)** | **Yn gweithio'n bennaf mewn darpariaeth adnoddau (cyfanswm a chanran)** | **Yn gweithio'n bennaf mewn coleg neu ysgol arbennig nid ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol (cyfanswm a chanran)** | **Swyddi Athro Plant Byddar yn gyffredinol (cyfanswm a chanran)** |
|---|---|---|---|---|
| Athrawon Plant Byddar gyda'r cymhwyster gorfodol | 34.9 (97%) | 21.9 (85%) | 1 (100%) | 57.8 (92%) |
| Athrawon o dan hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol o fewn 3 blynedd | 1 (3%) | 4 (15%) | 0 (0%) | 5 (8%) |
| Athrawon cymwysedig heb y cymhwyster gorfodol ac nad ydynt o dan hyfforddiant | 0 (0%) | 0 (0%) | 0 (0%) | 0 (0%) |
| Cyfanswm y ffigurau a roddwyd | 35.9 (100%) | 25.9 (100%) | 1 (100%) | 62.8 (100%) |

[10] Yn arolwg CRIDE, defnyddiwn y term ‘darpariaeth adnoddau’ i gynnwys pob ysgol sydd ag uned, canolfan neu ddarpariaeth adnoddau, ni waeth a yw’r staff yn y ddarpariaeth adnoddau yn cael eu cyflogi gan yr awdurdod lleol neu gan yr ysgol.

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r uchod drwy ddangos nifer yr Athrawon Plant Byddar mewn cyflogaeth yn ôl eu rolau yn unig.

*Tabl 8: Nifer yr Athrawon Plant Byddar mewn cyflogaeth yn gyffredinol yn ôl rôl*

| | **Cyfanswm yr Athrawon Plant Byddar mewn swydd** | **Canran** |
|---|---|---|
| Yn gweithio'n bennaf fel Athro Plant Byddar peripatetig | 35.9 | 57% |
| Yn gweithio'n bennaf mewn darpariaeth adnoddau | 25.9 | 41% |
| Yn gweithio'n bennaf mewn coleg neu ysgol arbennig nid ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol | 1 | 2% |
| Cyfanswm y ffigurau a roddwyd | 62.8 | 100% |

Ni chofnodwyd unrhyw Athrawon Plant Byddar yn gweithio'n hyblyg rhwng gwasanaeth peripatetig, darpariaeth adnoddau a/neu ysgolion arbennig nid ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol.

Casglwyd ffigurau am Athrawon Plant Byddar mewn rhaglenni mewnblaniadau yn y cochlear ledled Cymru mewn arolwg ar wahân. Derbyniwyd ymateb gan Raglen Mewnblaniad Cochleaidd Pediatrig De Cymru. Cofnodwyd bod o leiaf 1.4 Athro Plant Byddar hollol gymwysedig CALl mewn swydd, a dim swyddi gwag.

**Newidiadau yn nifer yr Athrawon Plant Byddar**

Mae'r tabl canlynol yn edrych ar y newidiadau yn nifer yr Athrawon Plant Byddar cymwysedig mewn cyflogaeth a swyddi dros flynyddoedd olynol.

Fel yr amlinellir yn gynharach, wrth wneud cymariaethau o flwyddyn i flwyddyn, dylid nodi gall anghysondebau weithiau ymddangos yn yr ymatebion. Rydym yn gwneud pob ymdrech i ofyn am unrhyw anghysondebau sy'n ymddangos i fod yn arbennig o ryfedd. Ond, nid yw gwasanaethau ac ysgolion bob tro yn ymateb i ymholiadau o'r fath.

*Tabl 9: Newidiadau yn nifer yr Athrawon Plant Byddar o flwyddyn i flwyddyn*[11]

| | **Athrawon Plant Byddar gyda'r cymhwyster gorfodol mewn cyflogaeth** | **Athrawon Plant Byddar gyda'r cymhwyster gorfodol mewn cyflogaeth neu o dan hyfforddiant** | **Nifer yr athrawon sy'n gweithio fel Athrawon Plant Byddar mewn cyflogaeth** | **Nifer y swyddi gwag** | **Nifer y swyddi Athrawon Plant Byddar (gan gynnwys swyddi gwag)** |
|---|---|---|---|---|---|
| 2022 | 57.8 | 62.8 | 62.8 | 2.4 | 65.2 |
| 2021 | 54.4 | 58.8 | 60.0 | 2.4 | 62.4 |
| 2019 | 57.0 | 66.0 | 66.0 | 0 | 66.0 |
| 2018 | 56.425 | 61.825 | 61.825 | 1 | 62.825 |
| 2017 | 57.63 | 60.33 | 60.73 | 3.9 | 64.63 |
| 2016 | 65.45 | 69.25 | 69.25 | 1 | 70.25 |
| 2015 | 69.86 | 73.66 | 74.26 | 0.8 | 75.06 |
| 2014 | 67 | 69.2 | 70.2 | 0.6 | 70.8 |

[11] Yn 2017, dechreuasom ofyn am Athrawon Plant Byddar mewn colegau neu ysgolion arbennig nid ar gyfer plant a phobl ifanc byddar yn benodol. Felly nid yw'n bosib cymharu yn uniongyrchol ffigurau cyn/ar ôl hyn. Ond, mae'n werth nodi nad oedd cynnwys y ffigyrau hyn yn arwain at gynnydd amlwg yn nifer yr Athrawon Plant Byddar.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2013 | 66.5 | 71.5 | 71.5 | 3 | 74.5 |
| 2012 | 91.75 | 100.55 | 100.55 | 0 | 100.55 |
| 2011 | 71.95 | 73.95 | 75.95 | 0 | 75.95 |

(*Ni chynhwysir data 2020 oherwydd y gyfradd ymateb is i'r arolwg*)

*Tabl 10: Newid canrannol yn nifer yr Athrawon Plant Byddar*

| | **Newid canrannol dros y 11 mlynedd diwethaf (rhwng 2011 a 2022)** | **Newid canrannol dros y flwyddyn ddiwethaf (rhwng 2021 a 2022)** |
|---|---|---|
| Athrawon Plant Byddar gyda'r cymhwyster gorfodol mewn cyflogaeth | -20% | 6% |
| Athrawon Plant Byddar gyda'r cymhwyster gorfodol mewn cyflogaeth **neu** o dan hyfforddiant | -15% | 7% |
| Nifer yr athrawon sy'n gweithio fel Athrawon Plant Byddar mewn cyflogaeth | -17% | 5% |
| Nifer y swyddi Athrawon Plant Byddar (gan gynnwys swyddi gwag) | -14% | 4% |

Archwiliwyd faint o wasanaethau oedd wedi gweld newid yn nifer yr Athrawon Plant Byddar rhwng 2021 a 2022 a gwelwyd bod 27% o wasanaethau wedi gweld cynnydd, 67% o wasanaethau heb weld unrhyw newid tra bod 7% o wasanaethau wedi gweld lleihad.

Gofynnwyd a oedd gwasanaethau wedi cael anawsterau wrth recriwtio Athrawon Plant Byddar neu ddarparu athrawon llanw dros y 12 mis diwethaf:

- cofnododd un gwasanaeth (7%) anawsterau wrth recriwtio i swydd barhaol
- cofnododd dau (13%) ddim anawsterau
- nododd 12 gwasanaeth (80%) fod y cwestiwn hwn yn amherthnasol iddynt.

- cofnododd tri gwasanaeth (20%) anawsterau wrth recriwtio athrawon llanw
- cofnododd dau (13%) ddim anawsterau
- nododd 10 gwasanaeth (67%) fod y cwestiwn hwn yn amherthnasol iddynt.

Gan gyfuno'r ffigyrau, cofnododd tri gwasanaeth (20%) anawsterau wrth recriwtio i naill ai swyddi parhaol neu lanw. Roedd sylwadau gan wasanaethau ynglŷn â hyn yn cynnwys:

- diffyg ymgeiswyr â'r cymwysterau priodol
- methu cael gweithwyr llanw yn ystod cyfnod y pandemig
- diffyg Athrawon Plant Byddar cymwysedig wedi cofrestru gydag asiantaethau recriwtio ac mewn awdurdodau cyfagos
- gwasanaethau yn cyflogi athrawon profiadol ac yn eu cefnogi drwy'r cymhwyster gorfodol.

**Athrawon Plant Byddar mewn swydd beripatetig**

Gofynnwyd faint o Athrawon Plant Byddar a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth peripatetig arbenigol neu wasanaeth 'ymweld'. Mae Athrawon Plant Byddar peripatetig fel arfer yn ymweld â phlant byddar mewn darpariaeth 'anarbenigol' – h.y. plant byddar cyn-ysgol, plant byddar mewn ysgolion prif ffrwd neu mewn ysgol arbennig nid ar gyfer plant byddar yn benodol.

*Tabl 11: Nifer yr Athrawon Plant Byddar peripatetig mewn cyflogaeth*

| | Nifer yr athrawon | Canran | Nifer y gwasanaethau gyda staff mewn categori perthnasol |
|---|---|---|---|
| Athrawon Plant Byddar gyda'r cymhwyster gorfodol | 34.9 | 97% | 15 |
| Athrawon o dan hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol o fewn 3 blynedd | 1 | 3% | 1 |
| Athrawon cymwysedig heb y cymhwyster gorfodol ac nad ydynt o dan hyfforddiant | 0 | 0% | 0 |
| Cyfanswm y ffigurau a roddwyd | 35.9 | 100% | |

Cofnododd un gwasanaeth swyddi gwag yn y gwasanaeth peripatetig o Ionawr 2022 ymlaen, syn dod i 1 swydd CALl.

Mae’r cyfanswm o 35.9 Athro Plant Byddar peripatetig CALl mewn swydd wedi codi o 35.1 yn 2021. Mae hyn yn gynnydd o 2%.

**Llwythi achos Athrawon Plant Byddar peripatetig**

Mae’r adran hon yn edrych ar lwythi achos damcaniaethol neu dybiannol pob un o’r Athrawon Plant Byddar gwadd drwy edrych ar nifer y plant byddar sy’n byw mewn ardal ac nad ydynt yn barod mewn darpariaeth arbenigol (ni waeth a ydynt yn derbyn cymorth neu beidio). Mae yna ystod o farnau ar ddefnyddioldeb hyn a’r ffordd orau o gyfrifo’r gymhareb hon. Dylid ystyried:

- gall ardaloedd mawr neu wledig, o reidrwydd, gael mwy o Athrawon Plant Byddar gwadd nag ardaloedd bach a threfol oherwydd yr angen i ddarparu ar gyfer amser teithio
- gall ardaloedd sydd ag unedau arbenigol neu ysgolion arbennig gael llai o Athrawon Plant Byddar gwadd oherwydd cymerwyd bod y plant byddar sydd â'r angen mwyaf yn barod mewn darpariaeth arbenigol
- gall ymddangos fod gan wasanaethau sydd mewn sefyllfa well i allu cofnodi a chydnabod yn ddibynadwy nifer y plant byddar, gan gynnwys y rheini dros 16 oed, sydd yn eu hardal, lwythi achos trymach na gwasanaethau sydd wedi darparu ffigur am nifer y plant byddar maent yn 'gwybod' amdanynt yn unig
- nid yw'r llwyth achos damcaniaethol yn dweud wrthym am y canlyniadau a gyflawnwyd gan blant byddar yn yr ardal.

Yn nhermau syml ac er mwyn cysondeb ar draws pob rhan o Gymru, cyfrifir y llwythi achos damcaniaethol drwy rannu nifer y plant sydd â byddardod parhaol sy'n byw mewn unrhyw ardal benodol ac mewn darpariaeth anarbenigol[12] gyda nifer yr Athrawon Plant Byddar gwadd cymwysedig neu sydd o dan hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol.

[12] Mae hyn yn cynnwys: “Wedi’u cynorthwyo yn y cartref yn unig – plant cyn-ysgol, Lleoliad blynyddoedd cynnar - plant cyn-ysgol, Wedi’u cynorthwyo yn y cartref – oedran ysgol ac yn derbyn addysg yn y cartref, Ysgolion prif ffrwd a ariennir gan y wladwriaeth (gan gynnwys academïau ac ysgolion rhydd), Ysgolion prif ffrwd annibynnol (nas ariennir gan y wladwriaeth) (er enghraifft, Eton), Ysgolion arbennig eraill, nid ar gyfer plant byddar yn benodol (naill ai a ariennir gan y wladwriaeth neu ysgolion nas cynhelir), Unrhyw ddarpariaeth ôl-16 arall (ac eithrio colegau chweched dosbarth ysgol), NEET (Nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant) (ôl-16 yn unig), Arall (e.e. Unedau cyfeirio disgyblion), Nid yw’n hysbys. Nid yw hyn yn cynnwys plant byddar mewn ysgolion prif ffrwd gyda darpariaeth adnoddau neu ysgolion arbennig ar gyfer plant byddar.”

Cawsom fod:

- pob Athro Plant Byddar gwadd (peripatetig) â llwyth achos damcaniaethol o 59 o blant byddar, ar gyfartaledd
- y llwyth achos uchaf oedd 154 mewn un ardal
- yna tri gwasanaeth (20%) lle mae gan bob Athro Plant Byddar gwadd lwyth achos damcaniaethol o 80 o blant byddar neu fwy, ar gyfartaledd, o’r rheini mae un gwasanaeth (7%) lle mae yna, ar gyfartaledd, 100 o blant byddar neu fwy ar y llwyth achos damcaniaethol.

Mae'r llwyth achos damcaniaethol wedi gostwng ers 2021 pan oedd gan bob Athro Plant Byddar peripatetig lwyth achos damcaniaethol o 60 plentyn byddar. Mae’r atodiad yn darparu ffigurau am lwythi achos ar gyfartaledd damcaniaethol i bob awdurdod lleol.

**Plant Byddar mewn darpariaethau adnoddau**

Gofynnwyd faint o Athrawon Plant Byddar a gyflogwyd mewn darpariaethau adnoddau ar gyfer plant byddar. Gofynnwyd i ymatebwyr i adael allan amser a dreulir ar ddyletswyddau ysgol eraill (megis amser fel cydlynydd anghenion addysgol arbennig yr ysgol, er enghraifft).

*Tabl 12: Nifer yr Athrawon Plant Byddar mewn darpariaethau adnoddau*

| | **Nifer yr athrawon** | **Canran** | **Nifer y gwasanaethau sydd â staff mewn categori perthnasol** |
|---|---|---|---|
| Athrawon Plant Byddar gyda'r cymhwyster gorfodol | 21.9 | 85% | 10 |
| Athrawon o dan hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol o fewn 3 blynedd | 4 | 15% | 4 |
| Athrawon cymwysedig heb y cymhwyster gorfodol ac nad ydynt o dan hyfforddiant | 0 | 0% | 0 |
| Cyfanswm y ffigurau a roddwyd | 25.9 | 100% | |

Cofnodwyd 1.4 swyddi Athrawon Plant Byddar gwag CALl mewn darpariaethau adnoddau o Ionawr 2022.

Mae’r cyfanswm o 25.9 Athro Plant Byddar peripatetig mewn swydd wedi codi o 23.9 yn 2021. Mae hyn yn gynnydd o 8%.

**Athrawon Plant Byddar eraill**

- Cofnodwyd bod 1 Athro Plant Byddar CALl gyda’r cymhwyster gorfodol yn gweithio yn bennaf mewn coleg neu ysgol arbennig nid ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol. Mae hyn yn gynnydd o 2021 pan ni chofnodwyd unrhyw Athrawon Plant Byddar yn gweithio yn y modd hwn.
- Ni adroddwyd bod unrhyw Athrawon Plant Byddar yn gweithio'n hyblyg fel Athro Plant Byddar peripatetig, mewn darpariaeth adnoddau a/neu mewn ysgol neu goleg arbennig nad oedd yn benodol ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar. Yn 2019, adroddodd un gwasanaeth fod 1 Athro Plant Byddar cyfwerth ag amser llawn yn gweithio fel hyn.

**Staff arbenigol eraill**

Cawsom fod 45.9 staff cymorth arbenigol CALl, heblaw am Athrawon Plant Byddar, mewn swydd yn cael eu cyflogi gan wasanaethau, yn cefnogi plant byddar. Cofnodwyd 1.4 swydd wag CALl. Golyga hyn fod 47.3 swydd staff cymorth arbenigol, gyda 3% o'r rheini yn wag.

*Tabl 13: Nifer y staff cymorth arbenigol, yn ôl swydd*

| | **Nifer yn gweithio yn y swydd hon** | | **Swyddi gwag** | | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer y staff (cyfwerth ag amser llawn)** | **Nifer y gwasanaethau gyda staff mewn categori perthnasol** | **Nifer y staff (cyfwerth ag amser llawn)** | **Nifer y gwasanaethau gyda staff mewn categori perthnasol** | |
| Cynorthwywyr addysgu / Cynorthwywyr cymorth dysgu ayb | 36 (96%) | 10 | 1.4 (4%) | 2 | 37.4 (100%) |
| Gweithwyr cymorth cyfathrebu / Cyfathrebwyr ayb | 3 (100%) | 2 | 0 (0%) | 0 | 3 (100%) |
| Dehonglwyr BSL/Saesneg wedi'u cofrestru gyda'r NRCPD | 0 (0%) | 0 | 0 (0%) | 0 | 0 (0%) |
| Hyfforddwyr byddar/Modelau rôl byddar/Hyfforddwyr iaith arwyddion ayb | 2 (100%) | 2 | 0 (0%) | 0 | 2 (100%) |
| Awdiolegwyr addysgol/Awdiolegwyr mewn Addysg nad ydynt hefyd yn meddu ar gymhwyster fel Athro Plant Byddar | 0.2 (100%) | 1 | 0 (0%) | 0 | 0.2 (100%) |
| Technegwyr, ayb | 1.5 (100%) | 2 | 0 (0%) | 0 | 1.5 (100%) |
| Therapyddion lleferydd ac iaith | 0.2 (100%) | 1 | 0 (0%) | 0 | 0.2 (100%) |
| Gweithwyr cefnogi teuluoedd/Swyddogion cyswllt | 0 (0%) | 0 | 0 (0%) | 0 | 0 (0%) |
| Gweithwyr cymdeithasol/Gweithwyr cymdeithasol i blant byddar | 1 (100%) | 1 | 0 (0%) | 0 | 1 (100%) |
| Arall | 2 (100%) | 2 | 0 (0%) | 0 | 2 (100%) |
| Cyfanswm y ffigyrau a roddwyd | 45.9 (97%) | | 1.4 (3%) | | 47.3 (100%) |

Roedd rolau eraill yn cynnwys cynorthwyydd addysgu lefel uwch a swyddog cymorth arbenigol uwch.

## RHAN 3: Cymorth ôl-16

Gofynnwyd a oedd Athrawon Plant Byddar peripatetig mewn gwasanaethau yn darparu unrhyw gymorth a nodir isod mewn perthynas â chyngor gyrfaol a symud mewn i gyflogaeth.

*Tabl 14: Cymorth ar gyngor gyrfaol a symud i mewn i gyflogaeth*

| **Categori** | **Ie** (nifer a chanran y gwasanaethau) | **Na** (nifer a chanran y gwasanaethau) | **Ansicr** (nifer a chanran y gwasanaethau) | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| Ymgysylltu â chynghorwyr gyrfaoedd mewn **ysgolion** ar gyngor gyrfaoedd i bobl ifanc byddar | 13 (87%) | 2 (13%) | 0 (0%) | 15 (100%) |
| Ymgysylltu â chynghorwyr gyrfaoedd mewn **colegau** ar gyngor gyrfaoedd i bobl ifanc byddar | 7 (47%) | 8 (53%) | 0 (0%) | 15 (100%) |
| Darparu cyngor ar hygyrchedd lleoliadau gwaith sy'n cael eu hymgymryd gan bobl ifanc byddar | 8 (53%) | 6 (40%) | 1 (7%) | 15 (100%) |
| Darparu gwybodaeth i bobl ifanc byddar am y gefnogaeth sydd ar gael drwy gynllun Mynediad at Waith am gymorth cyflogaeth | 8 (53%) | 6 (40%) | 1 (7%) | 15 (100%) |
| Darparu gwybodaeth i bobl ifanc byddar am eu hawliau o dan y Ddeddf Gydraddoldeb i addasiadau rhesymol yn y gweithle | 9 (60%) | 5 (33%) | 1 (7%) | 15 (100%) |

Cymariaethau â ffigurau o adroddiad 2021:

- mae cynnydd wedi bod yng nghyfran y gwasanaethau sy'n ymgysylltu â chynghorwyr gyrfaoedd mewn ysgolion (79% i 87%)
- mae gostyngiad wedi bod yng nghyfran y gwasanaethau sy'n ymgysylltu â chynghorwyr gyrfaoedd mewn colegau (50% i 47%), darparu gwybodaeth ar hygyrchedd lleoliadau gwaith (64% i 53%), darparu gwybodaeth am Fynediad at Waith (54% i 53%) a Darparu gwybodaeth am y Ddeddf Gydraddoldeb ac addasiadau rhesymol (62% i 60%).

## RHAN 4: Y cymorth a darperir

Nododd pob un o'r 15 gwasanaeth (100%) fod y gwasanaeth wedi'i leoli yn yr awdurdod lleol (yn hytrach na'u bod wedi'u lleoli mewn ysgol neu gorff arall).

**Nifer y darpariaethau adnoddau**

Yn arolwg CRIDE, defnyddiwn y term 'darpariaeth adnoddau' i gynnwys pob ysgol (prif ffrwd neu arbennig) sydd ag unrhyw uned, canolfan neu ddarpariaeth adnoddau ar gyfer plant byddar yn benodol, ni waeth a yw'r staff yn y ddarpariaeth adnoddau yn cael eu cyflogi gan yr awdurdod lleol neu gan yr ysgol.

*Tabl 15: Nifer y darpariaethau adnoddau*

| | **A reolir gan yr awdurdod lleol** | **A reolir gan yr ysgolion** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| Darpariaethau adnoddau at gyfer plant oedran ysgol gynradd | 4 | 5 | 9 |
| Darpariaethau adnoddau ar gyfer plant oedran ysgol uwchradd | 5 | 5 | 10 |
| Cyfanswm | 9 | 10 | 19 |

Cawsom fod:

- gan naw gwasanaeth (60%) o leiaf un ddarpariaeth adnoddau ar gyfer plant oedran ysgol gynradd yn eu hardal
- gan naw gwasanaeth (60%) o leiaf un ddarpariaeth adnoddau ar gyfer plant oedran ysgol uwchradd yn eu hardal.

Roedd y cyfanswm o 19 darpariaeth adnoddau yn newid o 2021 pan nodwyd 20 darpariaeth adnoddau gan yr arolwg. Dylid nodi mewn un ardal, cafodd dwy ddarpariaeth adnoddau a gafodd eu cofnodi ar wahân yn 2021, eu cofnodi gan y gwasanaeth fel un, ar ôl i'r ddwy ohonynt symud i un safle.

*Tabl 16: Nifer y darpariaethau adnoddau dros amser*

| **Blwyddyn** | **Nifer y darpariaethau adnoddau** |
|---|---|
| 2022 | 19 |
| 2021 | 20 |
| 2019 | 24 |
| 2018 | 25 |
| 2017 | 25 |
| 2016 | 24 |

(*Ni chynhwysir data 2020 oherwydd y gyfradd ymateb is i'r arolwg*)

Hefyd edrychasom ar nifer y darpariaethau adnoddau yn erbyn poblogaeth gyffredinol plant byddar.[13]
Y bwriad oedd dangos ymlediad darpariaethau adnoddau ar draws Cymru mewn perthynas â phoblogaeth gyffredinol plant byddar. Cawsom fod yna, ar gyfartaledd, un ddarpariaeth adnoddau i bob 122 o blant byddar. Mae hyn wedi codi ers 2021 pan oedd yna un ddarpariaeth adnoddau ar gyfer pob 116 o blant byddar.

[13] Defnyddir y cyfanswm cyffredinol a roddwyd gan wasanaethau yma.

**Nid** yw hyn yn fesur o’r nifer o leoedd sydd ar gael yn, neu’r plant byddar unigol sydd wedi’u cofrestri ym mhob darpariaeth adnoddau; bydd y ffigurau am leoedd neu blant byddar sydd wedi’u cofrestri yn amrywio o ddarpariaeth i ddarpariaeth.

Mae’r atodiad yn cynnwys ffigurau am ymlediad darpariaethau adnoddau yn erbyn poblogaeth leol plant byddar ym mhob awdurdod lleol.

## RHAN 5: Cymorth ar ôl canfod byddardod

Gofynnwyd i wasanaethau am sawl atgyfeiriad a dderbyniwyd ganddynt dros flwyddyn galendr 2021.

*Tabl 17: Atgyfeiriadau*

| | **Nifer a chanran yr atgyfeiriadau** | **Nifer y gwasanaethau** |
|---|---|---|
| Am blant y nodir eu bod yn fyddar drwy'r rhaglen sgrinio clyw babanod | 48 (15%) | 14 |
| Am blant y nodir eu bod yn fyddar y tu allan i'r rhaglen sgrinio clyw babanod a **chyn** iddynt ddechrau addysg statudol | 80 (25%) | 10 |
| Am blant y nodir eu bod yn fyddar y tu allan i'r rhaglen sgrinio clyw babanod ac **ar ôl** iddynt ddechrau addysg statudol | 197 (61%) | 15 |
| Cyfanswm y ffigurau a roddwyd | 325 (100%) | |

Wedyn gofynnwyd pa mor fuan y cysylltwyd â theuluoedd ac yr ymwelwyd â hwy yn dilyn atgyfeiriad gwreiddiol. Drafftiwyd y cwestiynau hyn gan gyfeirio at Safonau Ansawdd i Wasanaethau Cymorth Synhwyraidd yn Lloegr NatSIP (2016) – yn enwedig, safonau A1ii ac A1iii.

Cydnabyddwn efallai fod ystod o resymau pam nad yw'n bosib i'r ymweliad cyntaf ddigwydd o fewn amserlenni a amlinellir gan y safonau ansawdd (e.e. nid yw'n bosib i'r teulu i gwrdd). Ond, gobeithiwn fydd y cwestiynau hyn yn helpu i adeiladu darlun cenedlaethol o'r ffordd y mae'r safonau ansawdd hyn yn cael eu cwrdd.

Mewn ymateb i'r cwestiynau hyn, cawsom fod:

- o'r atgyfeiriadau am blant y nodir eu bod yn fyddar drwy'r rhaglen sgrinio clyw babanod, cysylltwyd â 33 o'r teuluoedd gan Athro Plant Byddar o fewn 2 ddiwrnod gwaith. Mae hyn yn 69% o'r 48 o blant a gafodd eu hatgyfeirio drwy'r llwybr hwn
- o'r atgyfeiriadau am blant y nodir eu bod yn fyddar y tu allan i'r rhaglen sgrinio clyw babanod a chyn iddynt ddechrau addysg statudol, cysylltwyd â 59 o'r teuluoedd gan Athro Plant Byddar o fewn 5 niwrnod gwaith. Mae hyn yn 74% o'r 80 o blant a gafodd eu hatgyfeirio drwy'r llwybr hwn[14]
- o'r atgyfeiriadau am blant y nodir eu bod yn fyddar y tu allan i'r rhaglen sgrinio clyw babanod ac ar ôl iddynt ddechrau addysg statudol, cysylltwyd â 83 o'r teuluoedd gan Athro Plant Byddar o fewn 5 niwrnod gwaith. Mae hyn yn 42% o'r 197 o blant a gafodd eu hatgyfeirio drwy'r llwybr hwn[15]
- Cynigwyd ymweliad i 182 o deuluoedd (naill ai wyneb-yn-wyneb neu rithiol) gan Athro Plant Byddar o fewn 10 niwrnod gwaith ar ôl unrhyw atgyfeiriad. Mae hyn yn 56% o'r 325 o blant a gafodd eu hatgyfeirio trwy neu y tu allan i'r rhaglen sgrinio clyw babanod.

Lle gwneir atgyfeiriad yn ystod gwyliau'r haf, gofynnwyd i wasanaethau pa drefniadau a wneir yn nhermau ymweliad cyntaf yr Athro Plant Byddar i'r teulu.

[14] Nid oedd dau wasanaeth wedi ateb y cwestiwn hwn.
[15] Nid oedd un gwasanaeth wedi ateb y cwestiwn hwn.

*Tabl 18: Trefniadau am atgyfeiriadau a wneir yn ystod gwyliau'r haf*

| | **Nifer y gwasanaethau** | **Canran o'r gwasanaethau** |
|---|---|---|
| Mae trefniadau llanw ar waith i alluogi Athro Plant Byddar i ymgymryd ag ymweliad yn ystod gwyliau'r haf o fewn deng niwrnod gwaith | 3 | 20% |
| Mae trefniadau llanw ar waith i alluogi Athro Plant Byddar i ymgymryd ag ymweliad yn ystod gwyliau'r haf ond nid o reidrwydd o fewn deng niwrnod gwaith | 3 | 20% |
| Mae Athro Plant Byddar yn ymgymryd ag ymweliad cyn gynted â phosib ar ôl gwyliau'r haf | 8 | 53% |
| Arall | 1 | 7% |
| Cyfanswm | 15 | 100% |

## RHAN 6: Cwestiynau thematig: Iaith arwyddion y teulu

Dywedodd pum gwasanaeth (33%) eu bod yn darparu yn uniongyrchol cyfleoedd anffurfiol (e.e. grwpiau teulu neu foreau coffi, sesiynau 'arwyddo ar y cyd' neu drwy fodelau rôl byddar) i deuluoedd i ddysgu neu ymarfer iaith arwyddion, a dywedodd deg gwasanaeth (67%) eu bod nhw ddim yn darparu cyfleoedd o'r fath.

Dywedodd 13 gwasanaeth (87%) nad oeddent yn darparu yn uniongyrchol[16] cyrsiau neu 'hyfforddiant' mewn arwyddo i deuluoedd: O'r ddau wasanaeth (13%) a ddywedodd eu bod nhw yn darparu cyrsiau, roedd y rhain yn:

- 'Cyrsiau eraill sy'n cefnogi defnydd iaith arwyddion yn benodol o fewn cyd-destun teuluol' – wedi'i ddarparu gan ddau wasanaeth (13% o wasanaethau) heb gost i'r teulu.
- 'Cwrs sy'n bwriadu gwella gwybodaeth am BSL ond heb arwain at unrhyw rai o'r cymwysterau isod' – wedi'i ddarparu gan un gwasanaeth (7%) heb gost i'r teulu.

Ni chofnodwyd gan unrhyw wasanaeth eu bod yn darparu yn uniongyrchol:

- cwricwlwm Iaith Arwyddion y Teulu y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar
- cwrs sy'n arwain at gymhwyster BSL Lefel 1
- cwrs sy'n arwain at gymhwyster BSL Lefel 2
- cwrs sy'n arwain at gymhwyster BSL Lefel 3 neu uwch.

Ar wahân, dywedodd 13 gwasanaeth (87%) nad oeddent yn comisiynu neu yn darparu cyrsiau i deuluoedd i'w galluogi nhw i ddysgu iaith arwyddion ar gwrs wedi'i ddarparu gan ddarparwr allanol. O'r ddau wasanaeth (13%) oedd yn eu darparu, roedd y rhain yn:

- 'Cyrsiau eraill sy'n cefnogi defnydd iaith arwyddion yn benodol o fewn cyd-destun teuluol' – wedi'u comisiynu neu eu hariannu heb gost i'r teulu gan ddau wasanaeth (13% o wasanaethau)
- 'Cwrs sy'n bwriadu gwella gwybodaeth am BSL ond heb arwain at unrhyw rai o'r cymwysterau isod' – wedi'i gomisiynu neu ei ariannu heb gost i'r teulu gan ddau wasanaeth (13%).
- cwrs sy'n arwain at gymhwyster BSL Lefel 1 - wedi'i gomisiynu neu ei ariannu heb gost i'r teulu gan ddau wasanaeth (13%).

Ni nododd unrhyw wasanaeth ei fod yn ariannu neu yn comisiynu:

- cwricwlwm Iaith Arwyddion y Teulu y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar
- cwrs sy'n arwain at gymhwyster BSL Lefel 2
- cwrs sy'n arwain at gymhwyster BSL Lefel 3 neu uwch.

Gofynnwyd am amlder y cyrsiau a ddarparwyd, ariannwyd neu comisiynwyd:

- darparwyd, ariannwyd neu comisiynwyd 'Cyrsiau eraill sy'n cefnogi defnydd iaith arwyddion yn benodol o fewn cyd-destun teuluol' yn ôl y galw, neu yn wythnosol o leiaf gan dri gwasanaeth (20% o wasanaethau).

[16] Yn yr arolwg, disgrifiwyd 'darparu yn uniongyrchol' fel rhywbeth mae'r gwasanaeth yn cyflogi rhywun i'w ddarparu

- darparwyd, ariannwyd neu comisiynwyd ‘Cyrsiau sy’n bwriadu gwella gwybodaeth am BSL ond heb arwain at unrhyw rai o’r cymwysterau isod’ yn ôl y galw, neu yn wythnosol o leiaf gan ddau wasanaeth (12%).
- darparwyd, ariannwyd neu comisiynwyd cwrs sy’n arwain at gymhwyster BSL Lefel 1 yn ôl y galw, neu yn wythnosol o leiaf gan ddau wasanaeth (12%).

Gofynnwyd am feini prawf cymhwysedd ar gyfer y cyrsiau a ddarparwyd, ariannwyd neu comisiynwyd. Gydag un eithriad, roedd y cyrsiau ar gael i unrhyw deulu os hoffent gael mynediad atynt. Yr un eithriad oedd un gwasanaeth a oedd yn darparu cwrs a oedd yn canolbwyntio ar ddysgu BSL ond heb o reidrwydd yn arwain at gymhwyster BSL lefel 1, 2 neu 3. Yn yr ardal hon, nododd y gwasanaeth fod rhieni plant iau/atgyfeiriadau newydd yn cael blaenoriaeth oherwydd capasiti cyfyngedig.

Mae ein dadansoddiad yn dangos bod 12 gwasanaeth (80%) ddim yn darparu, ariannu neu yn comisiynu unrhyw gyrsiau mewn iaith arwyddion i deuluoedd.

## RHAN 7: Prydau ysgol am ddim

Dywedodd 14 gwasanaeth eu bod nhw ddim yn cofnodi a yw plentyn oedran ysgol yn gymwys am brydau ysgol am ddim. Nid oedd un gwasanaeth yn ateb y cwestiwn. Ymddengys nad yw Athrawon Plant Byddar yn cael unrhyw drafodaethau ynghylch sut mae cyllid ychwanegol sy’n ymwneud â lefelau prydau ysgol am ddim (e.e. y Grant Amddifadedd Disgyblion) mewn ysgol yn cael ei ddefnyddio gyda phlant byddar – gyda phob un o’r gwasanaethau yn ymateb “dim neu ychydig bach o blant”.

## RHAN 8: Diwygiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Daeth y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg Cymru i rym ym Medi 2021. Mae’r Ddeddf yn cyflwyno sawl diwygiad a fydd yn dechrau newid y ffordd y mae plant a phobl ifanc 0 1 25 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cael eu cefnogi yng Nghymru.

Fel rhan o’r diwygiadau, bydd cynlluniau datblygu unigol (CDUau) yn cael eu defnyddio yn lle datganiadau anghenion addysgol arbennig. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud bydd y newidiadau yn cael eu rhoi ar waith dros amser.[17]

Cofnododd 11 gwasanaeth (73%) eu bod wedi rhoi CDUau i blant byddar cyn ysgol ers i ddiwygiadau ADY ddechrau cael eu cyflwyno ym Medi 2021, gyda phedwar gwasanaeth (27%) yn cofnodi eu bod nhw heb wneud hyn. Cofnodwyd bod cyfanswm o 26 plentyn byddar cyn ysgol wedi derbyn CDU.

Gofynnwyd i wasanaethau pa newidiadau, os o gwbl, sydd wedi cael eu gwneud i’r ffordd maent yn gweithio o ganlyniad i’r diwygiadau ADY (e.e. newidiadau mewn staffio). Roedd sylwadau am y newidiadau yn cynnwys:

- Athrawon arbenigol yn mynychu hyfforddiant ADY, cyfarfodydd Fforwm CADY. Arweinydd Synhwyraidd ac Athro Plant Byddar Cymwysedig yn mynychu Panel Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a’r Panel Blynyddoedd Cynnar. Cysylltiadau wedi’u sefydlu gyda’r cydlynydd Darpariaeth Dysgu Ychwanegol a’r

[17] O Fedi 2021, dylai plant a phobl ifanc sydd newydd eu dynodi fel rhai sydd ag ADY ac sydd angen cymorth, dderbyn CDU. Ers Ionawr 2022, dechreuodd rhai grwpiau o ddysgwyr sydd â chymorth Gweithredu gan yr Ysgol/Gweithredu gan yr Ysgol a mwy yn barod symud i’r system CDU newydd. Mae hyn yn cynnwys y rheini mewn Blynyddoedd Meithrin 1 a 2, Blwyddyn 1, Blwyddyn 3, Blwyddyn 5, Blwyddyn 7 a Blwyddyn 10.

Swyddog Anghenion Dysgu Ychwanegol Blynyddoedd Cynnar. Gwefan wedi cael ei datblygu i'r awdurdod lleol. Gwybodaeth a dogfennau hygyrch ar gael am y Diwygiadau ADY a'u gweithrediad. Arweinydd Synhwyraidd ac Athro Plant Byddar Cymwysedig yn rhan o grwpiau gwaith ac yn gysylltiedig â Llywodraeth Cymru a chyrff perthnasol eraill.

- Mae dyddiadau cau yn fwy amwlg (h.y. dychwelyd dogfennau yn dilyn Adolygiadau Blynyddol ayb) a ffurf cyfarfodydd gyda rhieni wedi newid gan ei wneud yn broses fwy cydweithredol. Mae'r wybodaeth sy'n cael ei rhannu yn tueddu i fod yn fwy cyfredol, gan ganolbwyntio ar symud ymlaen a chanlyniadau perthnasol, yn hytrach na data.
- Bob disgybl cyn ysgol yn cael ei drafod mewn Panel Ymholiad ADY. Staff y Gwasanaeth yn cefnogi ysgolion gydag ymholiadau.
- Athro ar secondiad yn gweithio yn gyfan gwbl ar CDUau gydag ysgol yr awdurdod sy'n gweithio o fewn yr adran ADY ac wedi gallu gofyn unrhyw gwestiynau a chwilio am gymorth, os oes angen, mewn perthynas â disgyblion byddar a CDUau.
- Sut mae gwasanaeth yn cofnodi cyngor ac mae'r adroddiad wedi cael ei addasu i gynnwys gwybodaeth benodol. Hyfforddiant a mynediad at system electronig sy'n cynnwys pob disgybl sydd wedi eu dynodi fel rhai sydd ag ADY.
- Mwy o hyfforddiant a chyfraniad mewn cyfarfodydd Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn.
- Disgyblion cyn-ysgol yn cael Cynllun sy'n Canolbwyntio ar yn Unigolyn wrth ddechrau addysg feithrin.
- Gwasanaeth yn parhau i ddarparu'r un lefel o gymorth i blant byddar ac ysgolion, ac ar yr un pryd yn parhau i ymgymryd â hyfforddiant ar y broses o weithredu ADY ac yn rhan o drafodaethau/cyfathrebu parhaus gydag ysgolion a theuluoedd i sicrhau bod plant byddar yn cael y cymorth sydd angen arnynt.

Gofynnwyd pa newidiadau, os o gwbl, sydd angen i gefnogi gwasanaethau wrth gwrdd â nodau diwygiadau ADY (e.e. hyfforddiant, staffio, ayb). Roedd sylwadau ar hyn yn cynnwys y themâu canlynol:

- Cynnydd mewn staffio.
- Hyfforddiant parhaol – yn enwedig mewn perthynas â CDUau a phlant a phobl ifanc byddar.
- Hyfforddiant i weithwyr cymorth arbenigol i gefnogi'r gwasanaeth allgymorth.
- Angen eglurhad ar ddarpariaeth Ôl-16 a hyfforddiant yn y maes hwn.
- Diweddariadau wrth iddynt gael eu rhannu gan Lywodraeth Cymru – mewn sesiynau Cwestiwn ac Ateb/Diweddaru wythnosol.

## RHAN 9: Cefndir a methodoleg

Mae CRIDE yn gonsortiwm sy'n dod ag ystod o sefydliadau ac unigolion sydd â diddordeb cyffredin mewn gwella canlyniadau addysgol plant byddar trwy ymchwil, at ei gilydd. Ar adeg anfon yr arolwg allan, yr oedd cynrychiolwyr yn cynnwys: Cymdeithas Brydeinig Athrawon Pobl Fyddar (BATOD), Ysgol Frank Barnes i Blant Byddar, Mary Hare, Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar, Partneriaeth Genedlaethol Nam ar y Synhwyrau (NatSiP), Coleg Prifysgol Llundain, Prifysgol Caeredin, ymgynghorwyr sy’n arbenigo mewn byddardod, a gwasanaethau addysg arbenigol i blant byddar yn Swydd Caergrawnt, Camden, Caint a Leeds.

Bob yn ail, mae’r arolwg yn arolwg safonol ac arolwg sydd yn cynnwys cymysgedd o gwestiynau craidd a thematig. Roedd arolwg 2022 yn fersiwn gyda chwestiynau thematig.

Dosbarthwyd yr arolwg i wasanaethau yng Nghymru ym mis Chwefror 2022 gan staff Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar ar ran CRIDE. Lle na fu ymateb erbyn 4 Mawrth, cysylltwyd â gwasanaethau trwy e-bost a/neu ffôn gan aelodau CRIDE. Amlinellir y tabl isod cyfraddau ymateb yn ôl pob cyfnod.

*Tabl 19: Cyfradd ymateb i arolwg CRIDE yn ôl gwasanaethau*

| | **Nifer yr ymatebion** | **Cyfanswm cronnus** |
|---|---|---|
| Dyddiad cau cyntaf – 4 Mawrth 2022 | 10 | 10 |
| Yr ail ddyddiad cau ar ôl cyswllt | 5 | 15 |

Roedd yn bosib i wasanaethau ymateb trwy gwblhau dogfen Word o'r arolwg. Ymgymerodd y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar â'r rhan fwyaf o'r dasg o ddadansoddi'r canlyniadau, gan ddefnyddio Excel, a llunio'r adroddiad, gyda chyfarwyddyd a chaniatâd gan aelodau CRIDE.

Hoffem ddiolch i'r holl wasanaethau am gymryd yr amser i gwblhau'r arolwg hwn ac am eu sylwadau a'u hadborth gwerthfawr, a ddefnyddir i lywio cynllun arolygon yn y dyfodol. Defnyddir canlyniadau'r arolwg hwn ar gyfer ymchwil, i ddylanwadu ar bolisïau’r llywodraeth ac i ymgyrchu er mwyn diogelu cyllid a gwasanaethau ar gyfer plant byddar.

Os oes unrhyw adborth neu gwestiynau gennych am y canlyniadau, cysylltwch â cride@ndcs.org.uk.

## Atodiad: Gwybodaeth yn ôl yr awdurdod lleol

Amlinellir y tabl dilynol rhai data unigol gan wasanaethau. Gofynnwyd i awdurdodau lleol i ddarparu'r ffigurau o 31 Ionawr 2022 ymlaen.

Mae ffigurau am Athrawon Plant Byddar yn cynnwys Athrawon Plant Byddar sydd yn meddu ar y cymhwyster gorfodol (CG) ac Athrawon Plant Byddar sydd o dan hyfforddiant am y CG neu sydd yn bwriadu ymgymryd â’r hyfforddiant o fewn tair blynedd.

Fel yr amlinellir yn gynharach, cyfrifir llwythi achos damcaniaethol Athrawon Plant Byddar peripatetig drwy rannu nifer y plant sydd â byddardod parhaol sy'n byw mewn unrhyw ardal benodol ac mewn darpariaeth anarbenigol gyda'r nifer o Athrawon Plant Byddar gwadd cymwysedig neu sydd o dan hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol. Ni chynhwysir ymatebion lle’r oedd fylchau neu anghysondebau amlwg yn naill ai nifer yr Athrawon Plant Byddar neu nifer y plant byddar sy’n byw yn yr ardal. Gwelwch dudalen 14 am fwy o wybodaeth. Mewn rhai achosion, lle’r oedd gamgymeriad neu anghysondeb amlwg, ni chyfrifir cymhareb.

Bwriad ffigurau ar gyfer poblogaeth gyfartalog plant byddar o fewn pob darpariaeth adnoddau yw dangos ymlediad darpariaethau adnoddau ar draws pob ardal. Cyfrifir trwy rannu nifer y plant byddar sy’n byw mewn ardal lle mae gwasanaeth yn gweithredu a nifer y darpariaethau adnoddau yn ardal gwasanaeth. Lle nad oes yna ddarpariaeth adnoddau yn yr ardal, arwyddir hyn gan gymhareb o’r boblogaeth yn yr ardal o 0. Dylid defnyddio gofal wrth ddehongli’r ffigurau hyn. Mewn rhai achosion, efallai gall y gymhareb gael ei dylanwadu gan bresenoldeb ysgolion arbennig yn yr ardal neu ddarpariaeth adnoddau eraill mewn ardaloedd cyfagos. Dylid nodi **nid** yw hyn yn fesur o nifer y lleoedd sydd ar gael yn, neu’r plant byddar unigol sydd wedi’u cofrestri ym mhob darpariaeth adnoddau; bydd y ffigurau am leoedd neu blant byddar sydd wedi’u cofrestri yn amrywio o ddarpariaeth i ddarpariaeth.

*Tabl 20: Data yn ôl awdurdod lleol*

| | **Nifer y plant sydd â byddardod parhaol sy'n byw o fewn yr ardal ddaearyddol lle mae'r gwasanaeth yn gweithredu** | **Nifer y plant sydd â byddardod parhaol neu dros dro sydd ar lwyth achos y gwasanaeth** | **Nifer y plant sydd â byddardod dros dro sydd ar lwyth achos y gwasanaeth** | **Athrawon Plant Byddar sydd yn y gwasanaeth peripatetig arbenigol** | **Athrawon Plant Byddar mewn darpariaeth adnoddau** | **Athrawon Plant Byddar yn bennaf mewn coleg neu ysgol arbennig nid ar gyfer plant a phobl ifanc byddar yn benodol** | **Athrawon Plant Byddar yn gweithio'n hyblyg** | **Llwythi achos damcaniaethol Athrawon Plant Byddar peripatetig** | **Poblogaeth gyfartalog plant byddar o fewn pob darpariaeth adnoddau** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pen-y-bont | 164 | 193 | 29 | 1 | 2 | 0 | 0 | 154:1 | 82:1 |
| Caerdydd | 272 | 232 | 56 | 4.8 | 5.6 | 0 | 0 | 51:1 | 136:1 |
| Sir Gaerfyrddin | 152 | 195 | 43 | 2.2 | 3 | 0 | 0 | 59:1 | 76:1 |
| Ceredigion | 63 | 78 | 15 | 0.8 | 1 | Dim yn cael ei gofnodi | Dim yn cael ei gofnodi | 64:1 | 63:1 |
| Conwy | 72 | 83 | 11 | 1 | Ni chofnodwyd unrhyw ddarpariaethau adnoddau | Dim yn cael ei gofnodi | Dim yn cael ei gofnodi | 71:1 | 72:0 |
| Gwynedd ac Ynys Môn | 139 | 162 | 23 | 2.6 | Ni chofnodwyd unrhyw ddarpariaethau adnoddau | Dim yn cael ei gofnodi | Dim yn cael ei gofnodi | 53:1 | 139:0 |
| Merthyr Tudful | 38 | 38 | Dim yn cael ei gofnodi | 1 | Ni chofnodwyd unrhyw ddarpariaethau adnoddau | Dim yn cael ei gofnodi | Dim yn cael ei gofnodi | 37:1 | 38:0 |
| Castell-nedd Port Talbot | 98 | 208 | 112 | 2 | 3 | 0 | 0 | 42:1 | 49:1 |
| Gogledd Ddwyrain Cymru (Sir y Fflint, Sir Dinbych, Wrecsam) | 316 | 313 | 75 | 3.4 | 3.6 | 0 | 0 | 81:1 | 105:1[18] |

[18] Eleni, cafodd dwy ddarpariaeth adnoddau a gafodd eu cofnodi ar wahân yn 2021, eu cofnodi gan y gwasanaeth fel un, ar ôl i'r ddwy ohonynt symud i un safle.

| | **Nifer y plant sydd â byddardod parhaol sy'n byw o fewn yr ardal ddaearyddol lle mae'r gwasanaeth yn gweithredu** | **Nifer y plant sydd â byddardod parhaol neu dros dro sydd ar lwyth achos y gwasanaeth** | **Nifer y plant sydd â byddardod dros dro sydd ar lwyth achos y gwasanaeth** | **Athrawon Plant Byddar sydd yn y gwasanaeth peripatetig arbenigol** | **Athrawon Plant Byddar mewn darpariaeth adnoddau** | **Athrawon Plant Byddar yn bennaf mewn coleg neu ysgol arbennig nid ar gyfer plant a phobl ifanc byddar yn benodol** | **Athrawon Plant Byddar yn gweithio'n hyblyg** | **Llwythi achos damcaniaethol Athrawon Plant Byddar peripatetig** | **Poblogaeth gyfartalog plant byddar o fewn pob darpariaeth adnoddau** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Sir Benfro | 65 | 94 | 31 | 1 | Ni chofnodwyd unrhyw ddarpariaethau adnoddau | 0 | 0 | 58:1 | 65:0 |
| Powys | 92 | 114 | 17 | 2.6 | Ni chofnodwyd unrhyw ddarpariaethau adnoddau | Dim yn cael ei gofnodi | Dim yn cael ei gofnodi | 35:1 | 92:0 |
| Rhondda Cynon Taf | 142 | 142 | 0 | 4 | 1 | 1 | 0 | 33:1 | 142:1 |
| De Ddwyrain Cymru (Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Torfaen a Chasnewydd) | 452 | 1,059 | 607 | 6.5 | 3.2 | Dim yn cael ei gofnodi | Dim yn cael ei gofnodi | 65:1 | 226:1 |
| Dinas Abertawe | 148 | 232 | 84 | 2 | 1.5 | 0 | 0 | 63:1 | 74:1 |
| Bro Morgannwg | 114 | 35 | Dim yn cael ei gofnodi | 1 | 2 | Dim yn cael ei gofnodi | Dim yn cael ei gofnodi | 98:1 | 57:1 |